Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cyngor Cymuned Talyllychau yn Ysgol Gynradd Gymunedol Talyllychau Nos Fawrth 2 Mai 2023 am 7.30pm.
Roedd y canlynol yn bresennol: Marged Bowen yn y Gadair, John Williams, Roger Thomas, Jane Morgan – sydd hefyd yn Glerc, a'r Cynghorydd Sir Fiona Walters. Cafwyd ymddiheuriadau oddi wrth Janine Roberts, Pauline George a Rhys Williams.
Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir.
Materion yn codi.
Hyfforddiant ar ddefnyddio'r Diffibriliwr. Bydd Jane Morgan yn parhau i gysylltu ag Ambiwlans Sant Ioan ynghylch dyddiadau ar gyfer hyfforddiant.
Pwyllgor Cae Chwarae Talyllychau. Yn dilyn cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Ebrill 2023 yn Ysgol Talyllychau, cafwyd llythyr gan Claire ar ran aelodau'r pwyllgor yn diolch ac yn nodi eu gwerthfawrogiad am yr amser a dreuliwyd gan y Cyngor yn cwrdd â nhw. Byddant yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am hynt yr ymweliadau safle gan ddarparwyr cymeradwy y Cyngor ar gyfer caeau chwarae.
Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd.
Gan nad oedd llawer o Gynghorwyr yn gallu bod yn y cyfarfod ac yn dilyn trafodaeth penderfynwyd y byddai Jane Morgan yn cysylltu â Janine Roberts i fod yn Gadeirydd ac ag Aled Williams i fod yn Is-gadeirydd am y flwyddyn i ddod.
Y gyfriflen banc ddiweddaraf a cheisiadau am dâl.
Y balans ar 28.04.2023 oedd £13,724.43. Mae hyn yn cynnwys Praesept o £3,666.66 a ddaeth i law ar 28.04.2023.
Cytunwyd i dalu'r canlynol: Cyngor Sir Gâr – Taliadau am Oleuadau ar Droedffyrdd ar gyfer y cyfnod 01.04.2022 hyd 31.03.2023 £504.74. Torri Glaswellt y Fynwent, M & J Maintenance £700.00.
Cafwyd neges e-bost gan Gymdeithas Cwmdu yn holi a oedd unrhyw arian ar gael tuag at gost Dathliadau'r Coroni. Cytunwyd y bydd £120 yn cael ei roi i helpu gyda chost llogi'r babell fawr.
Cafwyd negeseuon e-bost gan Bwyllgor Apêl Talyllychau, Llansawel ac Esgairdawe ar gyfer Eisteddfod yr Urdd Sir Gaerfyrddin yn diolch am y rhodd tuag at y gwobrau a roddwyd eisoes, a nodwyd er eu bod wedi cyrraedd eu targed, nad oedd y Sir wedi cyrraedd ei tharged hyd yn hyn. Nodwyd hefyd fod y Pwyllgor wedi penderfynu ymuno â gweddill y Sir i addurno'r pentref ac yn gofyn a fyddai'r Cyngor yn hapus i dalu am rywfaint o byntin a oedd ar gael i'w brynu o Lanymddyfri. Cytunwyd i brynu gwerth £120 o fyntin o dan Adran 137 er budd trigolion cymuned Talyllychau – i'w osod a'i dynnu i lawr gan wirfoddolwyr.
Gohebiaeth a ddaeth i law trwy'r post a gohebiaeth a anfonwyd ymlaen trwy e-bost.
Cafwyd neges e-bost ynghylch torri glaswellt yn y Fynwent oddi wrth Janine Roberts a thrafodwyd y mater.
Diffibrilwyr. Cafwyd neges e-bost gan Emily yn nodi bod pob un o'r tri diffibriliwr wedi'i wirio. Bydd yr holl badiau bellach yn dod i ben ar 26.02.2024. Dywedodd Emily hefyd ei bod wedi siarad â Marc Gower ynghylch hyfforddiant i'r Gymuned. Cytunwyd bod Jane Morgan yn cysylltu â Marc Gower i drefnu dyddiad addas.
Gwybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer archwiliad 2022-23.
Cafwyd llythyr gan C.Ff.I. Syr Gâr yn amgáu tocynnau mynediad i'w Rali Flynyddol.
Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad. Cafwyd llythyr gan Gyngor Sir Gâr yn nodi y bydd sesiynau hyfforddi Hybrid yn cael eu cynnal ym mis Gorffennaf 2023. Bydd modd mynychu'r sesiynau naill ai wyneb yn wyneb yn Neuadd y Sir yng Nghaerfyrddin neu o bell trwy Zoom. Bydd y sesiynau'n cael eu recordio, a bydd y recordiadau ar gael i Gynghorau Tref a Chymuned yn y Sir am gyfnod byr wedi hynny. Dyddiadau ac amseroedd y sesiynau 12.06.2023 – 2 p.m. 24.07.2023 – 6pm. Ffurflen presenoldeb i'w llenwi erbyn 01.06.2023.
Cymorth gyda chostau byw. Roedd pawb wedi cael gwybodaeth gan y Cyngor Sir. I gael rhagor o gyngor neu wybodaeth am y cymorth sydd ar gael, ewch i'ch hwb lleol (yng Nghaerfyrddin, Rhydaman neu

Lanelli), ffoniwch y tîm gwasanaeth cwsmeriaid ar 01267 234567, neu ewch i'r wefan Cyngor ar Gostau Byw (llyw.cymru).
Cafodd y cylchgrawn *Clerks & Councils Direct* ei ddosbarthu.

Cynllunio.
PL/05785- Ehangu cwrtil preswyl ac adleoli garej ynghyd ag addasiadau – Lluest Y Lloer, Talyllychau, Llandeilo, SA19 7AZ. Dim gwrthwynebiadau.
Unrhyw fater arall a dyddiad y cyfarfod nesaf.
Cytunwyd y dylid rhoi gwybod i Gyngor Sir Gâr am y coed ger Moelfre Lodge gan eu bod yn tyfu allan i'r ffordd ac yn malu ffenestri ceir a lorïau.
Nid oedd yna unrhyw fusnes arall, a daeth y cyfarfod i ben tua 9.45 pm. Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Fawrth, 6 Mehefin 2023, am 7.30pm.